# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 2 Mehefin 2015

Amser: 09.03 - 10.59

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/2734

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>William Graham AC<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC |
| Tystion: | Sara Ahmad, Llywodraeth Cymru<br>John Howells, Llywodraeth Cymru<br>June Milligan, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Michael Kay (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br>Nick Selwyn (Cynghorwr Arbenigol) |

| | |
|---|---|
| | Huw Vaughan Thomas (Cynghorwr Arbenigol)<br>Dave Thomas (Cynghorwr Arbenigol) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jocelyn Davies.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau. Trafododd yr Aelodau y llythyr gan Dr Peter Higson (Eitem 2.2) yn ystod rhan breifat y cyfarfod.

### 2.1 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013-14: Llythyr gan Gyngor Celfyddydau Cymru (13 Mai 2015)

### 2.2 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Llythyr gan Dr Peter Higson (15 Mai 2015)

### 2.3 Cyllid Iechyd 2013-14: Gwybodaeth ychwanegol gan Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru (Mai 2015)

### 2.4 Diwygiad Lles: Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Tai Cymru a Gorllewin Lloegr (Mai 2015)

### 2.5 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Llythyr gan Steve Martin, Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru (21 Mai 2015)

## 3 Diwygiad Lles: Sesiwn dystiolaeth 5

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan June Milligan, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru; John Howells, Cyfarwyddwr, Tai

ac Adfywio, Llywodraeth Cymru; a Sara Ahmad, Economegydd, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru, ar ei ymchwiliad i ddiwygiad lles.

3.2 Cytunodd June Milligan i wneud y canlynol:

- Anfon nodyn ynghylch y safleoedd y mae awdurdodau lleol wedi'u rhyddhau ar gyfer datblygu tai;
- Gwneud sylw ar sefyllfa bresennol y cymdeithasau tai yn newid eu polisïau dyraniadau fel nad oes gwaharddiad ar denantiaid sydd â rhent fel ôl-ddyledion yn seiliedig ar ddyledion budd-dal tai;
- Gwneud sylw ar effaith y cap budd-dal is arfaethedig yng Nghymru;
- Dadansoddiad o ardal awdurdodau lleol o dai yr effeithir arnynt (pan fo'r wybodaeth hon ar gael) gan y cap budd-dal is arfaethedig.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Diwygiad Lles: Trafod y dystiolaeth a gafwyd

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Rhagnodi Gofal Sylfaenol: Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

6.1 Oherwydd bod amser yn brin, ni chyrhaeddwyd yr eitem hon. Cytunwyd y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn briffio'r Pwyllgor ar ei femorandwm ar Ragnodi Gofal Sylfaenol yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 9 Mehefin.